WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Briff Prosiect – **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1314A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Paratowyd y ddogfen hon gan Steve Frank a Nick Selwyn.

# Cynnwys

Briff prosiect

Cefndir 4

Sail ddeddfwriaethol yr adolygiadau 4

Diben yr adolygiadau 4

Ffocws yr adolygiadau 5

Dulliau 6

Y buddion arfaethedig 8

Yr amserlen 8

Amserlen y gwaith maes 8

Cais am ddogfennau 9

Cadw gwybodaeth yn breifat ac yn ddiogel 9

Manylion cyswllt Swyddfa Archwilio Cymru 10

# Briff prosiect

## Cefndir

1 Mae'r briff hwn yn amlinellu ein rhaglen archwilio perfformiad arfaethedig ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn 2019-20.

2 Rydym yn bwriadu cynnal y pecyn integredig a ganlyn o archwiliadau perfformiad yn 2019-20:

- gwaith i gyflawni asesiad gwella a pherfformiad yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009;
- adolygiad o'r modd y mae'r Awdurdod yn mynd ati i gynnwys rhanddeiliaid, ac i reoli'r broses honno, pan fydd yn cynnig newidiadau i wasanaethau; a
- gwiriad bras o'r cynnydd a wnaed o ran y meysydd gwella a bennwyd yn ein harchwiliad o Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2018-19.

3 Yn 2019-20, ni fyddwn yn cynnal archwiliad manwl o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion llesiant. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y cynnydd a wnaed o ran y meysydd gwella a bennwyd yn ein harchwiliad o Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2018-19.

4 Dros y blynyddoedd nesaf, rydym yn bwriadu archwilio'r agweddau hynny ar Bum Ffordd o Weithio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy sy'n weddill. Isod, rhestrir y cynnydd a wnaed hyd yma a chynlluniau'r dyfodol:

- 2018-19 Cydweithio a phartneriaethau (wedi'i gwblhau)
- 2019-20 Cynnwys, cyfranogi, ymgynghori ac ymgysylltu
- 2020-21 Atal problemau rhag digwydd neu waethygu er mwyn i'r Awdurdod Tân ac Achub gyflawni ei amcanion
- 2021-22 Integreiddio polisïau a gwasanaethau

5 Mae cynllunio hirdymor yn edefyn a fydd yn cael ei gynnwys ym mhob un o'r llwybrau ymholi a nodir yn Arddangosyn 1 isod.

## Sail ddeddfwriaethol yr adolygiadau

6 Rydym yn ymgymryd â'r prosiect hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd osod sylfaen ar gyfer astudiaeth i wella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004 ac adeiladu ar yr archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn 2018-19 o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Diben yr adolygiadau

7 Yn 2019-20, rydym yn cynnal adolygiad ym mhob  Awdurdod Tân ac Achub i helpu i osod sylfaen ar gyfer casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol o ran y dyletswyddau a nodir uchod, a'n helpu i gynllunio gwaith archwilio'r blynyddoedd nesaf. Bydd y

prosiect yn sicrhau bod modd inni wneud asesiad gwybodus o'r risgiau i'r Awdurdod, gan gynnwys:

- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus;
- rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus; a
- gweithredu yn unol â'r pum ffordd o weithio pan fydd yn pennu amcanion llesiant ac yn mynd ati i'w cyflawni.

# Ffocws yr adolygiadau

8 Bydd yr archwiliadau'n canolbwyntio ar dri pheth:

- bydd pob archwiliad yn rhoi sicrwydd annibynnol fod yr Awdurdod yn gwella yn unol â gofynion cenedlaethol, Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016, anghenion y sefydliad, y galw am y gwasanaeth, a'r adnoddau sydd ar gael.
- bydd pob archwiliad yn rhoi sylwebaeth ar y prif agweddau ar ddarparu'r gwasanaeth. Byddwn yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng cynllunio corfforaethol, gweithgarwch y gwasanaeth o ddydd i ddydd, a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015).
- nid yw'r archwiliadau hyn yn adolygu i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn unig. Maent hefyd yn bwrw golwg ehangach a strategol ar y gwasanaeth a ddarperir a'i effaith ar lesiant y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd a wasanaethir gan yr Awdurdod, yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â nhw.

9 Isod, disgrifir pob un o'r archwiliadau arfaethedig mewn mwy o fanylder. Ar ddiwedd y briff, ceir amserlen, cais am ddogfennau, ac amserlen ar gyfer cyfweliadau.

## Gwaith i gyflawni asesiad gwella a pherfformiad yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009

10 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau a chyhoeddi asesiad sy'n disgrifio ei berfformiad.

11 Yn unol â'r Mesur, mae'n rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

12 Yn unol â'r Mesur, mae hefyd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad perfformiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn. O dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, byddwn

yn archwilio'r cynllun gwella i bennu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau.

## Adolygiad o'r modd y mae'r Awdurdod yn mynd ati i gynnwys rhanddeiliaid, ac i reoli'r broseso honno, pan fydd yn cynnig newidiadau i wasanaethau

13 Byddwn yn datblygu ac yn gwella'r dull archwilio a luniwyd ar y cyd â chi ar gyfer ein gwaith ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2018-19.

14 Bydd yr adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn a ganlyn: **A yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynd ati'n effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid pan fydd yn cynnig ac yn gwneud newidiadau i wella gwasanaethau?**

15 Adolygu dogfennau'r Awdurdod fydd un o'n dulliau archwilio. Sylwch na fyddwn yn gofyn am unrhyw ddogfen sydd gennym eisoes neu sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus ar wefan yr Awdurdod.

# Dulliau

16 Bydd yr adolygiad yn cyfeirio at egwyddorion cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru ar gyfer ymgysylltu. Byddwn hefyd yn ystyried adrannau perthnasol Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016[1] a baratowyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn benodol, adrannau 1.21, 1.25, 3.3 a 6.3 o'r Fframwaith Cenedlaethol.

17 I gynnal yr adolygiad, byddwn yn:

- archwilio'r wybodaeth a'r profiad a gronnwyd o archwiliadau ac arolygiadau;
- ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a Phrif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru i bennu unrhyw feysydd lle ceir gorgyffwrdd, gwaith cyffredin, a chyfleoedd i gydweithio.
- asesu gweithgareddau cynnwys ac ymgysylltu cyfredol a diweddar yr Awdurdod.
- profi gwefan yr Awdurdod drwy ystyried gwefan y Gwasanaeth a'r Awdurdod yn unol â chanllawiau llywodraeth y DU ar sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch[2].
- cynnwys yr Awdurdod yn y broses o gytuno i archwilio dau weithgaredd cynnwys/ymgysylltu/ymgynghori diweddar mewn mwy o fanylder.
- cynnal arolwg ymhlith rhanddeiliaid allanol ynghylch eu profiad o gael eu cynnwys, gan arfarnu'r dulliau a ddefnyddiwyd ar sail egwyddorion cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru ar gyfer ymgysylltu[3].

[1] Gweler **Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016**

[2] Gweler **gov.uk/making-your-services-accessible-and-user-focused**

[3] Gweler **participation.cymru/cy/egwyddorion/**

- bydd yr arolwg hwn yn cynnwys unrhyw feysydd perthnasol o'r astudiaethau cenedlaethol ym maes llywodraeth leol – er enghraifft o ran gwasanaethau dewisol a masnacheiddio – i leihau dyblygu. Byddwn yn ailddefnyddio manylion cyswllt y rhanddeiliaid sydd gennym eisoes, gan ychwanegu manylion cyswllt rhanddeiliaid penodol sy'n gysylltiedig â'r ddau weithgaredd cynnwys a ddewisir gan yr Awdurdod.
- cysgodi gweithgaredd cynnwys/ymgysylltu/ymgynghori. Gallai hyn gynnwys arsylwi ar gyfranogiad yr Awdurdod mewn digwyddiad cymunedol, cyfarfod â phartneriaid neu gyfarfod ymgysylltu â'r cyhoedd, cysgodi aelod staff, neu weithdy staff.
- cynnal cyfarfodydd a chyfweliadau (hyd at ddau ddiwrnod ar y safle) a fydd yn canolbwyntio ar y llwybrau ymholi a'r cwestiynau cynorthwyol isod. Mae angen inni gynllunio hyn yn ofalus i sicrhau ei fod yn cydweddu â gweithgarwch mewnol ac allanol arall yr Awdurdod.

18 Pan fydd ein gwaith maes wedi dod i ben, byddwn yn rhoi adborth ar lafar i Brif Swyddog Tân a Dirprwy Brif Swyddog Tân yr Awdurdod, a phan fyddwn wedi cytuno ar yr allbynnau, byddwn yn cyflwyno ein canfyddiadau i bwyllgor perthnasol yr Awdurdod.

19 Dangosir y prif lwybrau ymholi isod yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1 – Llwybrau ymholi

| Llwybrau ymholi |
|---|
| 1. A yw'r Awdurdod Tân ac Achub wedi pennu pwy y mae angen iddo eu cynnwys pan fydd yn llunio polisïau, yn gwneud newidiadau ac yn gwella gwasanaethau? |
| 2. A yw'r Awdurdod Tân ac Achub wedi pennu sut y mae angen iddo gynnwys rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau pan fydd yn llunio polisïau, yn gwneud newidiadau ac yn gwella gwasanaethau? |
| 3. A yw cynnwys yn cael effaith amlwg a gweladwy sy'n arwain at wella gwasanaethau? |

## Gwiriad bras o'r cynnydd a wnaed o ran y meysydd gwella a bennwyd yn ein harchwiliad o Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2018-19

20 Y maes hwn yw trydydd cynnig y pecyn integredig o archwiliadau perfformiad yn 2019-20. Nid ydym wedi gwneud argymhellion penodol yn 2018-19 ac rydym yn bwriadu cydweithio â'r Awdurdod i'w llunio ar gyfer 2019-20 ac i integreiddio unrhyw argymhellion newydd a wneir gennym. Mae gennym dri nod:

1. sicrhau bod y gwelliannau a'r ymrwymiadau i fynd i'r afael â'r meysydd gwella a bennwyd yn 2018-19 yn cael eu cyflawni;
2. cytuno ar ganfyddiadau sylfaenol credadwy a chyfres o argymhellion y gallwn eu defnyddio i fesur ac i bennu gwelliant yn y tymor hirach. Bydd hyn

yn ein galluogi i ganolbwyntio ar y pethau iawn yn y dyfodol ac i leihau unrhyw faich ymddangosiadol sy'n deillio o weithgarwch archwilio;

3. deall yr heriau, y rhwystrau, y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gwelliannau hynny a mynd ati i'w pennu'n gywir.

# Y buddion arfaethedig

21 Bydd y rhaglen hon o archwiliadau integredig yn helpu i:

- bennu i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- rhoi sicrwydd bod yr Awdurdod wedi rhoi'r trefniadau cywir ar waith i sicrhau ei fod yn gwella'n barhaus;
- sicrhau bod rhaglenni archwilio'r dyfodol yn seiliedig ar y prif feysydd risg;
- taflu goleuni drwy dynnu sylw at y meysydd y gallai'r Awdurdod ystyried canolbwyntio arnynt pan fydd yn ymgymryd â'i weithgareddau gwella.

# Yr amserlen

### Arddangosyn 2: yr amserlen

Yn y tabl isod, amlinellir amserlen arfaethedig yr adolygiad yn yr Awdurdod.

| **Yr amserlen arfaethedig** | |
|---|---|
| Cyfarfod sefydlu | 28 Mai 2019 |
| Cyhoeddi briff y prosiect | Mehefin 2019 |
| Cynnal cyfarfodydd a chyfweliadau gwaith maes | I'w drefnu – diwedd 2019 fwy na thebyg |
| Cyhoeddi'r allbynnau | I'w drefnu – dechrau 2020 fwy na thebyg |

# Rhaglen y gwaith maes

## Cyfweliadau

22 Pan fyddwn yn cyflawni ein gwaith maes, hoffem gwrdd â'r bobl a ganlyn:

- y Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog(ion) Tân;
- Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub;
- yr Aelod a ddynodwyd i arwain ar faterion ymgysylltu a chynnwys a/neu'r Aelod sy'n arwain ar y gwasanaeth(au) sy'n destun ymgynghoriad;
- swyddogion cyfathrebu, gan gynnwys y swyddog cyfryngau cymdeithasol a'r gwefeistr;

- y swyddog a ddynodwyd i arwain gweithgareddau ymgynghori a chynnwys rhanddeiliaid;
- yr uwch-swyddog a ddynodwyd i arwain y gwasanaeth(au) sy'n destun ymgynghoriad.

## Grwpiau ffocws

23 Pan fyddwn yn cyflawni ein gwaith maes, hoffem gwrdd â grŵp ffocws o staff rheng flaen sy'n ymwneud â gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu nad yw'n cynnwys uwch-reolwyr.

# Cais am ddogfennau

24 Cyn cynnal cyfweliadau ac arsylwadau ar y safle, byddwn yn adolygu'r dogfennau a restrir isod. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe bai modd ichi ddarparu unrhyw ddogfennau eraill a allai fod yn berthnasol i'n gwaith yn y maes hwn yn eich tyb chi. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ac fe allem ofyn i gael gweld dogfennau eraill yn ystod yr adolygiad. Nid ydym yn gofyn i gael copïau o ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan yr Awdurdod.

Arddangosyn 3: mae'r tabl isod yn rhestru'r dogfennau yr hoffem wneud cais i'w gweld i gychwyn fel rhan o'r adolygiad hwn

| Teitl y ddogfen |
|---|
| • Cynlluniau gweithredu ymgysylltu a chynnwys<br>• Enghraifft/enghreifftiau o ymgynghoriad diweddar ac adolygiad dysgu a datblygu o'r broses<br>• Gwerthusiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad<br>• Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a diweddariadau<br>• Detholiad o'r ymatebion i gwynion a chanmoliaeth |

# Cadw gwybodaeth yn breifat ac yn ddiogel

25 Pa bryd bynnag y byddwn yn prosesu data personol wrth ymgymryd â'n gwaith, rhaid inni gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r egwyddorion diogelu data. Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data sy'n pennu'r egwyddorion hyn ers 25 Mai 2018.

26 Ni fyddwn ond yn casglu'r data y mae gwirioneddol eu hangen arnom ar gyfer ein gwaith. Byddwn yn osgoi casglu gormod o ddata ac ni fyddwn yn cofnodi data personol amherthnasol neu ddiangen.

27 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu'r Safon Ryngwladol ar gyfer Systemau Diogelwch Rheoli Gwybodaeth (ISO 27001). Mae hyn yn golygu ein bod yn mynd ati i asesu risg cyfres fanwl o fesurau rheoli a'u profi'n rheolaidd. Bydd yr holl staff yn cydymffurfio â'r Polisi Diogelu Gwybodaeth.

# Manylion cyswllt Swyddfa Archwilio Cymru

Arddangosyn 4: Manylion cyswllt Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r tabl isod yn rhestru aelodau tîm Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad hwn yn yr Awdurdod.

| Enw | Manylion cyswllt |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio Perfformiad | Jane Holownia |
| Rheolwr Archwilio Perfformiad | Nick Selwyn |
| Archwilydd Perfformiad | Matthew Brushett |
| Archwilydd Perfformiad | Steven Frank |
| Archwilydd Perfformiad | Euros Lake |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru